



Byddwch yn rhan o'n prosiect Ail-wylltio Caerdydd

Cydweithio i greu gofod sy'n gyfeillgar i weny yn y byd go iawn

HADAU BLODAU GWYLLT

Mae ein prosiect Pharmabees yn chwilio am wyddonwyr iau i helpu i nodi cymysgedd grymus o hadau blodau gwyllt sy'n cefnogi gwenyn mêl a pheillwyr hanfodol eraill.



Gofynnwch am becyn o'n hadau blodau gwyllt sydd am ddim a'u plannu yn eich gardd i helpu i wella eich amgylchedd lleol ar gyfer gwenyn. Cysylltwch â ni drwy ebostio pharmabees@caerdydd.ac.uk

Profwyd bod manau gwyrdd awyr agored o fudd i les a gwytnwch.

Mae ymchwil wedi dangos y gall defnydd cynyddol o fannau gwyrdd leihau problemau iechyd tymor hir fel clefyd y galon, canser a chyflyrau cyhyrsgerbydol - a lleddfu difrifoldeb symptomau sy'n gysylltiedig â straen. Mae bod o amgylch natur yn ein tawelu ac yn tynnu ein meddyliau oddi ar fusnes bywyd bob dydd a sefyllfaoedd llawn straen.



Rydym yn chwilio am aelodau o'r gymuned i'n helpu i blannu blodau gwyllt sy'n gyfeillgar i bryfed peillio i hybu bioamrywiaeth a gwneud ein manau trefol yn fwy gwyrdd. I hyn gallwn roi hadau blodau gwyllt arbennig i chi.

Bydd y cynllun hwn yn cynyddu bioamrywiaeth ac yn lleihau allyriadau carbon. Trwy gynnig hafan ddiogel a ffynhonnell fwyd i beillwyr lleol, mae ardaloedd ail-wylltio yn caniatáu i bryfed fel gwenyn symud i fannau mwy heulog, a bwydo ar neithdar blodau gwyllt. Gyda phoblogaethau peillwyr yn prinhau mae creu cynefinoedd amrywiol yn hanfodol i ddiogelu'r aelodau hollbwysig hyn o'r ecosystem.

Beth sydd yn ein pecyn hadau?

- y bengaled
- llygad-llo mawr
- lluglys gwyn
- dant y llew
- penlas yr yd
- pabi'r yd
- melyn yr yd:
- camri'r yd
- meillionen wen
- clychau'r gog

Gofynnwch am becyn o'n hadau blodau gwyllt sydd am ddim a'u plannu yn eich gardd i helpu i wella eich amgylchedd lleol ar gyfer gwenyn. Cysylltwch â ni drwy ebostio@pharmabees@caerdydd.ac.uk